SAIL HYDER YN AWDURAETH DDWYFOL Y BEIBL

Nodyn i'r siaradwr:
Helpwch y gynulleidfa i resymu ar ddibynadwyedd y Beibl. Dangoswch fel mae cyflawni proffwydoliaethau a'r arweiniad ymarferol a gynhwysir yn y Beibl yn profi awduraeth ddwyfol. Pwysleisiwch fel mae Tystion Jehofah wedi elwa o gydymffurfio â safonau'r Beibl, ac felly ddarparu sail hyder yn ei awduraeth ddwyfol

LLAWER YN AMAU AWDURAETH DDWYFOL Y BEIBL (4 mun.)

Llawer heddiw yn amau—neu'n llwyr wadu—awduraeth ddwyfol y Beibl

Gofynnodd pamffledyn gan anffyddwyr i'r darllenwyr: "Fe wnewch chi helpu sicrhau tynnu'r llyfr hwn [y Beibl] o ddwylo'n plant, o gartrefi parchus, o ystafelloedd gwestai a motelau, oni wnewch chi?" (Frank C. Hughes yn *Spiritual Guide to Gracious Living*) Cyfeiriodd awdur o anffyddiwr at y Beibl fel "chwedlau tylwyth teg." (*The Evening Post,* Rhag. 11, 1979)

Dywedodd Esgob esgobaeth Esgobol Michigan: "Mae 'na wallau, anghywirdeb a gwrthddywediadau yn y Beibl. Gallwn ddeall felly pam nad ydi'r prif eglwysi Cristnogol ddim yn ystyried y Beibl yn anffaeledig." (*The Detroit News,* Ebrill 24, 1982)

Dywedodd lleian Babyddol o Denver, Colorado, am y Beibl: "Mae e'n annifyr o ddynol. Mae'r awduron dynol yn druenus o anwybodus ynglŷn â gwyddoniaeth, hanes, a hyd yn oed ddiwinyddiaeth . . . Ni ryddhaodd Duw yr awdur ysbrydoledig rhag yr anwybodaeth wyddonol oedd yn rhan o fywyd pobl y cyfnod hwnnw." (*Rocky Mountain News,* Chwef. 26, 1982)

'Oes 'na werth i'r barnau hyn? Pa sail sy' 'na i fod â hyder yn awduraeth ddwyfol y Beibl?

HONNAI YSGRIFENWYR Y BEIBL IDDYNT GAEL CYFARWYDDYD AWDUR DWYFOL (10 mun.)

Rhoddodd yr ysgrifennwr Beiblaidd Dafydd glod i Jehofah am yr ysgrifeniadau hyfryd a welir yn y Salmau (2Sam 23:2)

Er nad oedd y proffwyd Daniel yn deall popeth a ysgrifennodd, mae llawer o'i broffwydoliaethau wedi cael eu cyflawni (Dan 12:8)

Cafodd y proffwydoliaethau eu cyfarwyddo gan ysbryd glân Duw (2Pedr 1:20, 21)

Dywedodd yr apostol Paul fod *pob* Ysgrythur wedi ei hysbrydoli gan Dduw (2Tim 3:16, 17)

Os oedd gan y Cristnogion cynnar hyder yn awduraeth ddwyfol y Beibl, oni ddylai fod gennym ninnau?

Ystyriwch sut mae (1) proffwydoliaethau'r Beibl, (2) egwyddorion y Beibl, a'r (3) ffrwytho mae Tystion Jehofah yn ei gynhyrchu yn rhoi sail hyder yn awduraeth ddwyfol y Beibl

MAE PROFFWYDOLIAETHAU YN DYSTIOLAETH AMLWG O AWDURAETH DDWYFOL (15 mun.)

Ystyriwch y proffwydoliaethau a gyflawnwyd yn Iesu

Mae proffwydoliaethau am Iesu yn Salm 22

Rhagfynegodd adnod 1 y byddai Duw yn gadael Iesu i'w elynion; rhagfynegodd adnodau 7, 8 y câi ei ddifenwi pan oedd ar y pren; rhagfynegodd adnod 16 y câi ei drywanu yn ei ddwylo a'i draed; rhagfynegodd adnod 18 y byddai 'na fwrw coelbren am ei ddillad

Cyflawnwyd pob un o'r proffwydoliaethau hyn ragor na mil o flynyddoedd wedi iddyn' nhw gael eu hysgrifennu

Mae 'na o leiaf ugeiniau o broffwydoliaethau Meseianaidd a gyflawnwyd yn Iesu (*it*-2 387)

Mae'r llyfr *Archaeology and Bible History* yn dweud: "Mae siawns cyflawni'r holl broffwydoliaethau hyn mewn un dyn mor llethol o annhebygol fel ei bod yn hynod amlwg na fedren' nhw ddim ar unrhyw gyfrif fod yn ddyfaliadau craff dynion." (*ce* 221)

Rhagfynegodd Daniel ddyrchafu a chwymp grymoedd byd (Darllen Daniel 8:5-8, 20-22)

Cyflawnwyd y broffwydoliaeth hon ragor na 200 mlynedd yn ddiweddarach pan fu farw Alecsander Fawr a phedwar o'i gadfridogion yn rhannu Ymerodraeth Groeg (*w*93 5/15 6)

Rhagfynegodd Eseia ddyfodiad Cyrus i ryddhau'r Iddewon o'u caethglud ym Mabilon gan hyd yn oed ei enwi cyn dechrau'r gaethglud (Darllen Eseia 44:24-28)

Rhagfynegodd y byddai pyrth Babilon yn cael eu gadael ar agor (Darllen Eseia 45:1) (*w*93 5/15 5)

Rhagfynegodd y dinistr a ddaeth ar Fabilon (Darllen Eseia 13:19; 14:22, 23)

Mae Babilon, oedd yn llwyr anghyfannedd erbyn 200 C.C., yn parhau'n ddiffaith hyd heddiw, ac felly'n cadarnhau cywirdeb proffwydoliaeth Eseia (*hp* 28-9)

Mae proffwydoliaethau ynglŷn â dyddiau diwethaf y drefn bresennol yn cael eu cyflawni yn ein hoes ni

Mae darllen 2 Timotheus 3:1-5 fel darllen penawdau papur newydd heddiw

Mae Datguddiad 6:1-8 yn cael ei gyflawni o 1914 ymlaen (*re* 89-99)

Mae proffwydoliaeth yn sefydlu awduraeth ddwyfol y Beibl (Eseia 46:10)

TYSTIOLAETH AWDURAETH DDWYFOL YN YR ARWEINIAD YMARFEROL MAE'R BEIBL YN EI ROI (10 mun.)

Mae'r Beibl yn rhoi goleuni i'n llwybr drwy gynnig cyngor ymarferol mewn llawer maes (Salm 119:105)

Yn helpu gwella problemau economaidd

Yn condemnio diogi, yn hyrwyddo diwydrwydd (Diar 6:6-11; Col 3:23; 2Thes 3:10)

Mae'r rhai sy'n ddiwyd yn fwy tebygol efallai o aros mewn gwaith

Yn pwysleisio gwerthoedd priodol; ni ddylid rhoi'r lle blaenaf mewn bywyd i bethau materol, a 'ddylen' nhw ddim chwaith ein rheoli ni (Mth 6:33; 1Tim 6:6-12)

Yn rhybuddio yn erbyn dulliau byw sy'n gallu arwain at dlodi (Diar 23:20, 21)

Gall cyngor y Beibl arwain at agwedd meddwl well ac iechyd corfforol

Gan nad gwerslyfr meddygol ydi'r Beibl, 'dyw e ddim yn honni gallu dadwneud afiechydon cronig meddyliol, emosiynol, neu gorfforol

Er hynny, mae egwyddorion y Beibl yn hybu iechyd emosiynol a chorfforol; sut?

Y Beibl yn dangos y gall agwedd feddyliol effeithio ar ein iechyd corfforol (Darllen Diarhebion 14:30)

Y Beibl yn ein hannog ni i feithrin nodweddion "meddwl iach" ("a calm heart," *NW*) (Diar 16:32; Rhuf 12:17-21; Eff 4:31, 32)

Y Beibl yn condemnio arferion sy'n gallu effeithio er drwg ar ein hiechyd corfforol

Yn rhybuddio rhag gorfwyta, yfed yn drwm, pethau sy'n halogi cnawd ac ysbryd (Lc 21:34; 2Cor 7:1)

Mae safonau moesol uchel y Beibl yn ein bendithio â mesur o amddiffyn rhag afiechydon arbennig (Diar 7:5, 22-27; Heb 13:4)

Daw budd i'r rhai sy'n byw yn ôl cyngor y Beibl (Eseia 48:17, 18)

MAE TYSTION JEHOFAH YN TYSTIO I AWDURAETH DDWYFOL Y BEIBL (6 mun.)

Mae'r ffrwythau a gynhyrchir yn eu bywydau drwy lynnu wrth ddeddfau ac egwyddorion moesol y Beibl yn profi mai o ffynhonnell ddwyfol y mae'r Beibl

Dywedodd Iesu y gellid 'nabod coeden dda neu ddrwg oddi wrth ei ffrwythau (Mth 7:16-20)

Mae egwyddorion y Beibl wedi helpu llawer i drawsffurfio eu bywydau (Darllen 1 Corinthiaid 6:9-11)

Mae Tystion Jehofah yn brawf byw bod safonau'r Beibl yn gweithio

Maen' nhw'n deulu unedig er byw mewn rhagor na 230 gwlad

Ddim yn faterol, maen' nhw'n ceisio Teyrnas Dduw yn gyntaf (Mth 6:33)

Maen' nhw'n osgoi camddefnyddio cyffuriau, gan gynnwys tybaco

Yn ceisio byw bywydau glân drwy ufuddhau i safonau moesol uchel y Beibl

Mae'r ffaith bod cyngor y Beibl *yn gweithio* yn sail cadarn dros fod â hyder yn awduraeth ddwyfol y Beibl (Mth 11:19)

Rhowch gyngor y Beibl ar waith yn eich bywyd chi; helpwch eraill i wneud yr un peth (1Tim 4:16)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnynt)